

Ymateb Ysgrifenedig Llywodraeth Cymru i adroddiad Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau o dan y teitl Adroddiad ar Gaffael yn yr Economi Sylfaenol.

Hoffem ddiolch i aelodau Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau am eu hadroddiad ar Gaffael yn yr Economi Sylfaenol.

Mae'r Cynllun Gweithredu ar yr Economi yn amlinellu ffordd newydd o weithio ym maes datblygu economaidd yng Nghymru, gan roi ffyniant a llesiant wrth galon ein hymdrechion, a gyrru twf cynhwysol ym mhob rhan o Gymru. Wrth galon hyn mae'r awydd i gael mwy o werth am yr arian sy'n cael ei wario gan Lywodraeth Cymru.

Cadarnhawyd hynny yng nghyhoeddiad y Prif Weinidog y byddai'n deddfu i ymwreiddio partneriaeth gymdeithasol a chyflwyno dyletswyddau mewn cysylltiad â chaffael.

Mae'r Cynllun Gweithredu ar yr Economi yn canolbwyntio ar wneud cymunedau'n gryfach ac yn fwy cydnerth. Ceir pwyslais ar fynd i'r afael ag anghyfartaledd a chreu perthynas 'rhywbeth yn gyfnewid am rywbeth arall' gyda busnes. Roedd hefyd yn cydnabod bod yr Economi Sylfaenol yn faes gweithredu allweddol.

Mae'r elfennau hanfodol hyn o weithgarwch economaidd yn hollbwysig i lesiant, hynny yw, byddai tarfu ar eu cyflenwad yn tanseilio bywyd diogel a gwâr. Mae mynediad at aer a dŵr glân, y bwyd rydym yn ei fwyta, y cartrefi rydym yn byw ynddynt, yr ynni rydym yn ei ddefnyddio a'r gofal rydym yn ei dderbyn yn wasanaethau sylfaenol y mae pob dinesydd yn dibynnu arnynt, ac sy'n ffurfio rhan bwysig o wead economi Cymru.

Rydym wedi nodi ein hymateb i argymhellion unigol yr Adroddiad isod.

Argymhelliad 1:

Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru roi rhagor o eglurder ynghylch:

Sut mae'n bwriadu diffinio 'caffael lleol' yng nghyd-destun Cymru:

Yn draddodiadol, mae dadansoddi gwariant ar gaffael wedi bod yn seiliedig ar gasglu data anfonebu manwl gan gyrff y sector cyhoeddus ledled Cymru a dosbarthu'r wybodaeth hon yn ôl cyfeiriad cod post y cyflenwyr. Mae'r dull hwn o ddsbarthu lleoliad y gwariant wedi ein galluogi i adnabod cyfran y gwariant caffael cyffredinol sy'n cael ei ennill gan gyflenwyr sydd â chanolfan yng Nghymru, gan gynnwys busnesau cynhenid. Mae hyn yn debyg i'r hyn sy'n cael ei wneud mewn rhannau eraill o'r DU, gan gynnwys yn yr Alban er enghraifft.

Mae Llywodraeth Cymru wedi penodi'r Centre for Local Economic Strategies (CLES) i gefnogi cyrff sector cyhoeddus, drwy strwythurau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC), i ddarparu prosiectau braenaru er mwyn rhoi dulliau caffael newydd ar waith a fydd yn ceisio mynd y tu hwnt i ddsbarthu gwariant ar sail y cod post yn y ffordd draddodiadol. Bydd hyn yn helpu i lunio diffiniad o gaffael lleol, gan

alluogi gwell dealltwriaeth a dealltwriaeth mwy cyson o weithgarwch caffael lleol a'r gwerth cymdeithasol sy'n deillio ohono.

Dechreuodd CLES ar y gwaith hwn ym mis Mai. Mae'r cynllun cyflenwi wedi gorfod cael ei ail-flaenoriaethu gan nad oedd yn bosibl cysylltu gyda'r BGCau oherwydd effaith COVID-19.

Oherwydd hynny, dros yr haf, mae CLES wedi edrych ar yr wybodaeth ar ddadansoddi gwariant caffael sydd wedi'i gydgyssylltu gan Lywodraeth Cymru ac wedi defnyddio hyn i lunio'r sail ar gyfer dechrau'r drafodaeth gyda BGCau ynghylch caffael lleol. Mae'r gwaith dadansoddi manwl hwn wedi'i gwblhau a'i atodi gydag adroddiad terfynol yn cynnwys pob sector yn ôl ardal BGC.

Mae'r cysylltiad gyda'r BGCau bellach wedi dechrau er mwyn symud ymlaen gyda hyn.

Bydd cynnwys y CLES yn:

- defnyddio'r wybodaeth dadansoddi gwariant sydd eisoes wedi'i chasglu;
- integreiddio hynny gyda gwersi sy'n deillio o'u gwaith gyda chyrrff cyhoeddus; a
- bod ymchwil pellach yn cael ei wneud ar arferion dadansoddi gwariant ar gaffael mewn lleoedd eraill gan ddiweddarau'r polisi er mwyn galluogi cyrrff cyhoeddus i ddsbarthu caffael lleol yn gywir.

Beth fydd llwyddo yn ei olygu? Yn enwedig o ran cynyddu lefel y caffael lleol;

Mae caffael yn rhan o bolisi sy'n esblygu ar draws Llywodraeth Cymru. Disgwylir y bydd tystiolaeth i allu datblygu'r polisi hwn ymhellach yn deillio o'r gwaith sy'n cael ei wneud mewn partneriaeth â CLES.

Bydd y meini prawf llwyddiant yn amrywio ar gyfer pob un o'r prosiectau braenaru mewn partneriaeth â CLES. Bydd yr amrywiaeth hwn yn adlewyrchu'r blaenoriaethau rhanbarthol a lleol ar draws gwahanol rannau o Gymru a'r cyfleoedd a gyflwynir o fewn categorïau y gwariant ar gaffael. Y brif nod ar gyfer pob prosiect BGC yw nodi maes caffael sydd ar hyn y bryd yn mynd y tu allan i'r rhanbarth/ac neu Gymru, ac i edrych ar y posibilrwydd o gael mwy o gyflenwyr lleol yn gysylltiedig yn y gwariant hwn.

Y sectorau penodol a fydd yn ffocws i'r gweithredu (gan gynnwys trwy holl brosiectau'r Gronfa Her) a'r broses dadansoddi data a gwneud penderfyniadau sydd wrth wraidd hynny;

Roedd y Cynllun Gweithredu ar yr Economi yn cadarnhau y byddai Llywodraeth Cymru yn gweithio i gefnogi ein pedair sector sylfaenol - twristiaeth, bwyd, manwerthu a gofal (cymdeithasol a phlant) - mewn ffordd gyson a chydgyssylltiedig ar draws y llywodraeth, ac y byddem yn gweithio gyda'r sectorau i ddeall yr heriau a wynebant a'r cyfleoedd i dyfu ac i arloesi. Roedd hefyd yn ymrwymo i ddatblygu cynlluniau galluogi ar draws y llywodraeth i gynyddu'u heffaith.

Roedd Manifesto Arweinyddiaeth y Prif Weinidog a gyhoeddwyd ddiwedd 2018 wedi gwneud ymrwymadau pellach i gyflawni ac i gefnogi'r Economi Sylfaenol, gan adeiladu ar y Cynllun Gweithredu ar yr Economi, gyda phwyslais o'r newydd ar feithrin a thyfu rhannau beunyddiol yr economi, gan gynnwys canolbwyntio ar ansawdd profiad pobl o fywyd bob dydd.

I gydnabod ein hagwedd ehangach at gefnogi'r Economi Sylfaenol, byddwn yn gweithio mewn ffordd sector niwtral ac yn ceisio llunio cynlluniau sy'n seiliedig ar leoedd i fynd i'r afael â materion, megis amodau cyflogaeth, llwybrau sgiliau a chynhyrchiant, sydd wedi'u gwreiddio'n ddwfn yn y rhannau hyn o'r economi.

Bydd unrhyw sectorau penodol a allai fod yn rhan o waith CLES yn cael eu hysbysu drwy archwilio dadansoddiadau caffael hanesyddol a llunio darlun clir o unrhyw weithgarwch contract sydd ar y gweill. Bydd cytundeb unrhyw sector yn mynd rhagddo mewn cydweithrediad â'r rhanddeiliaid.

Unwaith eto, i gydnabod ein hagwedd ehangach at hyn, nid oedd [prosiectau a gefnogwyd drwy Gronfa Her yr Economi Sylfaenol](#) wedi'u cyfyngu i sectorau penodol. Roedd y Gronfa yn sector niwtral ac roedd y prosiectau llwyddiannus yn cynnwys meysydd megis gofal cymdeithasol, adeiladwaith, adfywio, caffael a bwyd. Mae gan bob prosiect ei gerrig milltir a'i gyflawniadau ei hun a byddant ar waith dros gyfnodau gwahanol er byddant i gyd wedi gorffen erbyn diwedd mis Mawrth 2021, a'u cefnogi gan Ymarfer Cymunedol fydd yn weithredol yn ystod mis Gorffennaf.

Sut y bydd yn canfod y bylchau o ran cyflenwi ar gyfer y farchnad ac yn gweithredu ar y wybodaeth honno:

Mae bwlch cyflenwi yn faes gwariant caffael cyhoeddus lle nad oes cyflenwyr cynhenid o Gymru na chyflenwyr sydd wedi'u lleoli yng Nghymru yn ennill yr un contract.

Byddwn yn canfod bylchau cyflenwi drwy ddadansoddi'r gwariant ar gaffael, archwilio cynlluniau contractau sydd ar y gweill, a chwestiynu'r wybodaeth sydd gan dimau datblygu busnes a thimau yn y sector perthnasol. Bydd hyn yn canfod y galw gan y sector cyhoeddus yn y dyfodol am nwyddau a gwasanaethau lle mae'n ymddangos nad oes capasiti cyflenwi ar gael yng Nghymru.

Caiff yr wybodaeth hon ei rhannu â Busnes Cymru, rhanddeiliaid eraill yn y sectorau cyhoeddus a phartneriaid cymdeithasol er mwyn rhoi cynlluniau ar waith i ddatblygu gallu a chapasiti mewn bylchau cyflenwi.

Bydd gwybodaeth am y bylchau cyflenwi hyn yn hanfodol i brosiectau BGC CLES. Bydd manylion sy'n tynnu sylw at fylchau yn sylfaen gyflenwi Cymru yn cael eu casglu cyn gynted â phosibl a'u rhannu â Busnes Cymru.

Byddwn hefyd yn defnyddio'r gwersi a ddysgwyd o'n gwaith ar Swyddi Gwell yn Nes Adref lle rydym wedi rhoi dulliau arloesol ar waith er mwyn helpu i ddatblygu capasiti cyflenwi a'r gwersi a ddysgwyd o Swyddi Gwell a drwy'r rhaglen caffael perthynol yn y tymor hwy. Roedd y rhaglen Swyddi Gwell yn Nes Adref wedi llwyddo i fynd i'r afael â bwlch cyflenwi drwy sefydlu menter gymdeithasol i weithgynhyrchu iwniffformau a dillad gwaith. Drwy'r ymyriad hwn, llwyddwyd i gael cyflenwad yn lleol

yn ogystal â chyflogaeth gynaliadwy a hyfforddiant mewn ardal o amddifadedd yng Nghymru. Fel rhan o'r gwaith ar yr economi sylfaenol, bydd rhaglen ar gaffael perthynol yn taro golwg fanwl ar gadwyni cyflenwi sectorol er mwyn canfod bylchau cyflenwi ac yn chwilio am gyfleoedd lleol i lenwi'r bylchau hyn. Y meysydd cyntaf y bydd y rhaglen caffael perthynol yn ymchwilio iddynt fydd bwyd; gofal cymdeithasol; ac adeiladwaith.

Mae'r gwersi a ddysgwyd gan Swyddi Gwell yn Nes at Adref hefyd wedi cefnogi ein dull o sicrhau cyflenwad o Offer Diogelwch Personol hollbwysig i GIG Cymru a'r sector gofal. Gyda chymorth gan Diwydiant Cymru, mae nifer o fusnesau o Gymru sydd â gallu i wneud hynny wedi cael busnes, yn uniongyrchol a thrwy'r gadwyn gyflenwi, i ddarparu eitemau hanfodol o Offer Diogelu Personol i GIG Cymru a chyrrff cyhoeddus eraill. Mae'r profiad hwn wedi llywio ein syniadau ymhellach ynghylch yr Economi Sylfaenol a swyddogaeth cyrrff cyhoeddus wrth agor gwariant caffael i roi cyfleoedd i gyflenwyr cynhenid gael contractau. Rydym yn cydweithio'n agos â chydweithwyr GIG Cymru i ddod o hyd i feysydd eraill o wariant y gellid edrych arnynt i sicrhau bod busnesau Cymru yn chwarae mwy o ran.

Y fethodoleg a'r dull(iau) y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu eu defnyddio i fesur canlyniadau ac effaith gwaith yn y sectorau caffael cyhoeddus hyn, ar draws Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, a'r amserlen a'r cerrig milltir ar gyfer cyhoeddi'r wybodaeth honno.

Gwnaethom gytuno, fel y cyfeirir ato yn yr adroddiad, na ddylid mesur ar sail meini prawf ariannol yn unig a dylid cynnwys nodau Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn ogystal â'r buddion cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol ehangach sy'n gallu deillio o gaffael.

Yn ehangach ar draws y sector cyhoeddus, dylai unrhyw fethodoleg gynnwys agweddau o sut mae caffael yn helpu i gefnogi nodau Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, lefelau cyflogaeth / hyfforddiant a phrentisiaethau drwy'r Pecyn Mesur Buddion Cymunedol.

Mae Gwerth Cymru wedi llunio Dangosfwrdd Datgarboneiddio sy'n rhoi llinell sylfaen i'r allyriadau carbon sy'n gysylltiedig â'r £6.4bn a warir gan y sector cyhoeddus. Gall awdurdodau contractio ei ddefnyddio - law yn llaw â Nodyn Cyngor Caffael newydd ar Ddatgarboneiddio - a bydd yn eu galluogi i lunio cynlluniau gweithredu datgarboneiddio ac i fonitro'r gwelliannau.

Mae Llywodraeth Leol yn ystyried mabwysiadu'r offeryn Themâu, Amcanion a Mesuriadau (TOMs) felly gallai hwnnw fod yn ddangosydd defnyddiol yn y sector hwnnw – yn yr un modd, mae'n bosibl bod gan sectorau eraill offerynnau mesur defnyddiol y gallem eu defnyddio i fesur llwyddiant ledled Cymru.

Yn draddodiadol, mae'r Pecyn Mesur Buddion Cymunedol wedi bod yn ffordd effeithiol o fesur buddion economaidd-gymdeithasol ac amgylcheddol a gyflawnwyd drwy gontractau. Yn dilyn adborth gan randdeiliaid, mae'r Pecyn wedi cael ei symleiddio ac ymgorfforwyd nodau Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ynddo. Fodd bynnag, ystyrir ymhellach sut y gellir defnyddio offer digidol ac e-gaffael (neu sut y

gellir eu cymhwyso i'r Pecyn) i'w wneud yn fwy deniadol i ddefnyddwyr er mwyn gallu cofnodi'r buddion yn fwy effeithiol.

Wedi cofnodi eu canfyddiadau a'u hargymhellion cychwynnol ym mis Awst, mae CLES yn bwriadu dechrau gweithredu cynlluniau gwaith BGC ym mis Medi, gan redeg drwy Chwefror 2021, ac wedi hynny, bydd yr holl gynlluniau gwaith yn cael eu hadnewyddu i adlewyrchu cynnydd a chyfleoedd i ddatblygu camau pellach tan fis Tachwedd 2021. Bydd y canlyniadau yn cael eu mesur rhwng Mehefin a Tachwedd 2021, gydag adroddiad diwedd y prosiet yn cael ei gynhyrchu ym mis Rhagfyr 2021. Bydd proses o drosglwyddo gwybodaeth yn mynd rhagddi ar yr un pryd gyda Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus eraill.

Ar ôl cychwyn a sefydlu, mae Cam 1 Methodoleg CLES wedi golygu asesiad manwl o'r wybodaeth gaffael ymysg y sefydliadau sy'n aelodau a datblygu adroddiad yn rhoi amlinelliad o'r prif ganfyddiadau ac argymhellion, yn ogystal â chynlluniau gweithredu y cytunwyd arnynt ar gyfer pob Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Dechreuodd Cam 1 ym mis Mai gan barhau tan fis Awst 2020.

Bydd Cam 2 yn arwain at weithredu'r cynllun gwaith, gan gynnwys dadansoddi ac alinio cyflenwad y farchnad gyda chyfleoedd contract, ac wedyn adrodd yn ôl ar ddiwedd y flwyddyn. Bydd Cam 2 yn rhedeg rhwng Awst a Thachwedd 2021, gydag adolygiad o'r cynlluniau gweithredu erbyn Ebrill 2021.

Ymateb: Derbyn, a chaiff ymatebion manwl eu llunio i roi'r eglurder angenrheidiol ar draws yr holl feysydd.

Goblygiadau Ariannol – Dim

Argymhelliad 2:

Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru roi rhagor o eglurder ynghylch:

Sut y bydd yn gwerthuso ac yn monitro gwaith y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus i ddeall a gweithio gyda'u cadwyni cyflenwi lleol;

Sefydlwyd Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ym mis Ebrill 2016 o dan Ran 4 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Nid ydynt yn endidau cyfreithiol, ond maent yn gyfrwng i bartneriaid gwasanaethau cyhoeddus gydweithio er mwyn gwella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol eu hardal drwy gyfrannu at gyflawni'r saith nod llesiant a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Pwyllgorau craffu awdurdodau lleol sy'n eu gweinyddu ac sy'n eu dal i gyfrif. Nid oes gan Lywodraeth Cymru ddim pwerau i gyfeirio na llywio eu gwaith – yn cynnwys eu cynllun llesiant.

Caiff Gweinidogion Cymru eu cynrychioli ar bob Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a gallant gyfleu buddion/statws caffael i'r Byrddau. Mae gan Lywodraeth Cymru ffyrdd eraill o gyfathrebu â'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a byddai gohebiaeth o'r fath yn cydnabod bod y pŵer mewn dwylo lleol, nid cenedlaethol.

Felly, bydd Llywodraeth Cymru yn ceisio, drwy waith CLES, cefnogi Byrddau Gwasanaethau Lleol a'u haelodau i lunio dulliau gweithredu sy'n cysylltu eu gweithgareddau cadwyn gyflenwi i'w blaenoriaethau llesiant lleol. Caiff Byrddau Gwasanaethau Lleol eu cefnogi i lunio meini prawf llwyddiant sy'n gysylltiedig â'r meysydd gwariant a nodwyd ar gyfer gwella llesiant.

Pa waith sy'n cael ei wneud (naill ai trwy'r Gronfa Her neu o fewn Llywodraeth Cymru/Busnes Cymru) i fynd i'r afael â phryderon parhaus gan fusnesau llai bod y broses ymgeisio yn dal i fod yn rhy gymhleth?

Mae nifer o brosiectau caffael arbrofol yn cael eu cefnogi drwy'r Gronfa Her sy'n canolbwyntio'n benodol ar fynediad busnesau bach i gontractau a chadwyni cyflenwi sy'n cynllunio i ddatblygu camau gweithredu er mwyn mynd i'r afael â'r pryderon hyn. Mae'r rhain yn cynnwys cyrff cyhoeddus yn ystyried sut y gallant addasu agweddau o gontractau mewn categorïau megis adeiladwaith fel bod contractwyr lleol, llai yn gallu ennill busnes cyhoeddus.

Dyma rai prosiectau penodol sy'n cael eu cefnogi:

- Cymdeithas Tai Unedig Cymru sy'n manteisio ar botensial cael pedair cymdeithas dai i gydweithio er mwyn datblygu swyddogaeth angori benodol i hybu BBaCh presennol a newydd mewn cadwyni cyflenwi lleol.
- Cyngor Bro Morgannwg sy'n edrych o'r newydd ar gaffael, yn enwedig ar gontractau gwerth llai na £15,000, er mwyn treialu ffyrdd o gael rhagor o BBaCh i ymgeisio er mwyn rhoi hwb i gyfranogaeth sy'n ffafrio busnesau lleol.

Caiff prosiectau'r Gronfa Her eu cefnogi gan Gymuned Ymarfer, a ddechreuodd ym mis Gorffennaf, i helpu i rannu arfer da a gwersi yn sydyn ac yn eang i bob cwr o Gymru.

Yn ogystal â chefnogi prosiectau, bydd y Gymuned Ymarfer hefyd yn casglu gwybodaeth ar gynnydd pob prosiect, yn adnabod tueddiadau, ac yn cyflwyno'r wybodaeth honno i Lywodraeth Cymru er mwyn cyfleu'r negeseuon hynny'n gynnar i adrannau perthnasol a rhanddeiliaid allweddol a rhannu'r arfer da yn eang ledled Cymru.

Hefyd, mae Panel Caffael Arbenigol, gan dynnu ar arbenigedd technegol, cyfreithiol, academiaidd a busnes, wedi ei sefydlu i roi cymorth ymarferol i'r prosiectau arbrofol hyn.

Rhoddir sylw i'r materion hyn hefyd drwy'r prosiectau braenaru BGC CLES (canfod gollyngiadau gwariant a gwyrddroi'r llif) a fydd yn deillio o ddadansoddiad manwl o ddata hanesyddol a phrosesau caffael sydd yn yr arfaeth. Bydd CLES yn gweithio gyda sefydliadau sy'n aelodau o Fyrddau Gwasanaethau Lleol nid yn unig i ddangos lle mae cyfleoedd cyflenwi lleol yn bodoli, ond hefyd sut y gellir addasu a symleiddio prosesau caffael er mwyn annog ceisiadau gan gyflenwyr lleol, a gwneud hynny mewn modd sy'n cydymffurfio â'r rheolau.

Mae Busnes Cymru yn cynnig cyngor ar ddatblygu cyflenwyr ac yn cyflwyno cymorth ymarferol i fusnesau sy'n dymuno tendro am waith y sector cyhoeddus, gan gynnwys gweithdai Cwrdd â'r Prynwr a Sut i Dendro. Gall busnesau lleol fanteisio ar dîm o Ymgynghorwyr Tendro profiadol sy'n gweithio ar sail un-i-un ac un-i-lawer gan helpu BBaCh i wella eu siawns o ennill contractau sector cyhoeddus a phreifat.

Sut mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi ymdrechion i ddyfnhau'r ddealltwriaeth o gyflenwyr lleol a gwella ei phrosesau cyn-ymgysylltu, cefnogi a chynllunio gwaddol gyda nhw – yr adnoddau staffio, y cyllid a'r mentrau sydd ar waith, ac wedi'u cynllunio, i gefnogi'r gwaith hwn yn benodol;

Gwasanaeth cymorth busnes dwyieithog Llywodraeth Cymru yw Busnes Cymru. Cafodd ei lansio ym mis Ionawr 2013, a'i adnewyddu ym mis Ionawr 2016 er mwyn ei gwneud yn haws i ficrofusnesau a BBaChau yng Nghymru, gan gynnwys mentrau cymdeithasol a darpar entrepreneuriaid, gael mynediad at yr wybodaeth, y cyngor a'r gefnogaeth sydd eu hangen arnynt i gychwyn ac i dyfu eu busnesau.

Mae Ymgynghorwyr Tendro Busnes Cymru yn arbenigo mewn paratoi BBaCh i fod yn 'barod i dendro' ar draws y sectorau cyhoeddus a phreifat yng Nghymru a gallant eu cynghori ar gyfleoedd tendro sydd yn yr arfaeth ar gyfer sectorau unigol. Gall Ymgynghorwyr Tendro hefyd helpu busnesau i ddeall caffael yn y sector cyhoeddus; anghenion a disgwyliadau'r prynwr; sut i gydweithio er mwyn ennill contractau; a sut i wneud y mwyaf o GwerthwchiGymru, gan gynnwys helpu i gofrestru ac i fireinio proffiliau.

Bydd prosiectau braenaru CLES yn ategu gwaith Busnes Cymru a byddant yn canolbwyntio ar ddod o hyd i weithgarwch caffael sydd yn yr arfaeth gan alluogi datblygu dealltwriaeth o gadwyni cyflenwi lleol y gellid ei defnyddio i alinio i gymorth datblygu busnes.

Beth yn fwy y gellir ei wneud i gymell busnesau bach i weithio gyda'i gilydd ac i wobrwyo cydweithio;

Rydym yn gweithio gyda phartneriaid yn y sector cyhoeddus i ddarparu eglurder ar gynlluniau contractio yn y tymor hwy, gan alluogi busnesau llai i ystyried cynllunio i gydweithio a chyflwyno ceisiadau ar y cyd ar gyfer contractau mwy. Bydd cael gwell syniad o'r contractau sydd yn yr arfaeth yn galluogi busnesau llai i chwilio am gyfleoedd i gydweithio â phartneriaid er mwyn helpu i gynyddu capasiti ar gyfer contractau mwy a fyddai fel arall y tu hwnt i'w gallu.

Mae Busnes Cymru ar gael i gefnogi cyflenwyr beth bynnag yw'r dull a fabwysiadir gan brynwyr. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi cynhyrchu Canllaw ar Gyflwyno Cynnig ar y Cyd. Cynhaliwyd cyfres o brosiectau arddangos a oedd yn dangos yn glir yr heriau sy'n gysylltiedig â'r ffordd hon o weithio, er enghraifft arweinydd y cais mewn unrhyw gonsortium yn ysgwyddo'r baich mwyaf o ran atebolrwydd.

Ers cynnal y prosiectau cynnar hynny, mae sefydliadau fel Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol Cymru wedi bod yn weithgar yn hyrwyddo ceisiadau ar y cyd fel rhan o'i strategaeth ehangach i ymgysylltu â chyflenwyr lleol.

Rydym hefyd yn hybu defnyddio mecanweithiau fel Talu Rhwng Aseiniadau (PBAs) er mwyn sicrhau bod is-gontractwyr a chyflenwyr yn cael eu talu'n brydlon ac yn deg. Diben gweithredu yn y maes hwn yw cefnogi cynaliadwyedd economaidd busnesau Cymru sy'n rhan o gadwyni cyflenwi sector cyhoeddus sy'n ymwneud yn bennaf (ond nid yn unig) â phrosiectau adeiladu yng Nghymru. Mae'r dull hwn yn cyfrannu at ddyheadau Llywodraeth Cymru i wneud Cymru yn lle gwych i fyw, gweithio a chynnal busnes ynddo.

Pa gynlluniau sydd gan Lywodraeth Cymru i ymgysylltu ag angorau'r sector preifat ar bolisi caffael fel rhan o weithgareddau ei Chynllun Gweithredu Economaidd;

Rydym yn ymgysylltu'n rheolaidd â chwmnïau angori yn y sector preifat ledled Cymru drwy reolwyr cysylltiadau sydd wedi'u lleoli yn y tair rhanbarth, fel y nodir yn y Cynllun Gweithredu ar yr Economi. Mae caffael yn drafodaeth sy'n codi'n rheolaidd. Mae ein ffordd o feddwl am gwmnïau angori yn esblygu yn unol a'n Cynllun Gweithredu ar yr Economi ac fel rhan o'r berthynas honno byddwn yn cadw golwg ar ein hagwedd at gaffael hefyd.

Ymgysylltiad Llywodraeth Cymru â Llywodraeth y DU ar gynllunio tymor hir i drosglwyddo'r gefnogaeth o gyllid Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (ERDF), hynny yw, sut y bydd gweithgareddau Busnes Cymru sy'n gysylltiedig â chaffael yn cael eu hariannu yn y dyfodol;

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwmo i ddarparu cymorth busnes rhagweithiol i BBaCh ac i entrepreneuriaeth ar ôl mis Medi 2021 fel bod modd i wasanaeth Busnes Cymru esblygu ac i ragori ar y gwasanaeth presennol gan ymwreiddio ei effaith ymhellach o fewn economi Cymru.

Bydd dwy elfen i'r model arfaethedig ar gyfer cyflenwi yn y dyfodol:

- Bydd mwy o gapasiti a gallu yn ceisio meithrin hyder ac ysbrydoli unigolion, entrepreneuriaid a microfusnesau i gyrraedd eu potensial llawn. Bydd gweithio gyda rhanddeiliaid allweddol yn golygu eu bod yn gallu cyfrannu a chwarae eu rhan yn y gwaith o ddatblygu ecosystem gydlynol sy'n weladwy, yn syml ac yn gysylltiedig er mwyn sicrhau bod Cymru yn lle gwych i gychwyn busnes.
- Bydd twf cynhwysol a chynaliadwy yn ceisio creu'r amodau i alluogi rhagor o microfusnesau a busnesau bach i dyfu mewn ffyrdd cynhwysol a chynaliadwy i ddod yn BBaCh sy'n ffynnu ac i gefnogi cynhyrchiant, cydnherthedd a chynaliadwyedd busnesau canolig eu maint, gan sicrhau eu perchnogaeth hirdymor yn economi Cymru yn y dyfodol a'u cyfraniad at hynny.

Rydym yn parhau i gyflwyno'r achos i Lywodraeth y DU fod angen eglurder y bydd ei haddewidion i barchu'r setliad datganoli yn cael eu cynnal, ac y cedwir y cwantwm ac ymreolaeth sydd gan Lywodraeth Cymru ar hyn o bryd. Mae hi'n hollbwysig y ceir ymrwymiad cyn gynted ag y bo modd cyn mis Ionawr 2021 er mwyn i ni allu dechrau cynllunio ar gyfer yr arian a fydd ar gael pan ddaw'r rhaglenni cyfredol i ben. Bydd hyn yn galluogi Llywodraeth Cymru i ddiwallu'r amserlen ar gyfer cyflawni Busnes Cymru yn y dyfodol ar ôl 2021 ac yn galluogi Llywodraeth Cymru i ddarparu gwasanaeth Busnes Cymru effeithiol a gwell ar ôl 2021. Rydym yn parhau i lobio Llywodraeth y DU ar y Gronfa Ffyniant Gyffredin, ond nid yw eto wedi darparu unrhyw wybodaeth ac mae wedi methu pob un o'r terfynau amser yr oedd wedi'u gosod ei hun.

Pa gamau pellach penodol y bydd Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i gefnogi a datblygu'r defnydd o gynigion cydweithredol a sut y mae'n bwriadu rhannu'r dysgu o'r camau hyn;

Rydym yn gweithio gyda phartneriaid yn y sector cyhoeddus i ddarparu eglurder ar gynlluniau contractio yn y tymor hwy, gan alluogi busnesau llai i ystyried cynllunio i gydweithio a chyflwyno ceisiadau ar y cyd ar gyfer contractau mwy. Rydym hefyd yn ystyried sut gellir rhannu canllawiau diwygiedig ar gynnig ar y cyd.

Drwy ein gwaith ar Gaffael Perthynol, byddwn yn gweithio gyda phob haen mewn cadwyni cyflenwi i adeiladu cydnerthedd cyflenwad lleol a sicrhau bod cyflenwyr llai sy'n gweithredu islaw haenau 1 a 2 y gadwyn gyflenwi yn cael pob cyfle i weithredu'n gynaliadwy. Rhan o'r gwaith hwn fydd cynghori a chysylltu â chyflenwyr bach i ystyried cynigion cydweithredol.

Rhagor o fanylion am y prosiectau Gwell Swyddi yn Nes at Adref, er mwyn i'r Pwyllgor ddeall y raddfa, nifer y swyddi a gefnogir, yn ogystal â'r allbynnau a'r canlyniadau eraill y mae Llywodraeth Cymru yn ceisio eu cyflawni.

Mae'r rhaglen Swyddi Gwell yn Nes at Adref wedi ymrwymo i gynyddu caffael lleol ac ar hyn o bryd mae'n goruchwyllo tair ffrwd waith sydd wedi ymrwymo i wireddu hyn.

Nod y rhaglen hon yw defnyddio proffil gwariant caffael cyhoeddus i greu cyflogaeth ystyrllon mewn ardaloedd difreintiedig iawn. Mae'r cynlluniau peilot yng Nghymoedd De Cymru. Y nod yw nawr defnyddio'r hyn sydd wedi cael ei ddysgu o'r cynlluniau peilot a normaleiddio'r dull gweithredu mewn caffael cyhoeddus ledled Cymru. Byddwn yn gwneud hyn drwy ein gwaith economi sylfaenol ar ddatblygu cyfoeth cymunedol gyda CLES a fydd yn ceisio darparu perthynas agos gyda'n cadwyni cyflenwi sector cyhoeddus a drwy ein gwaith caffael perthynol sy'n ymwneud â gwneud ein cadwyni cyflenwi lleol yn gydnerth, a gyda dull cyfunol byddwn yn addasu arferion i atgynhyrchu'r dulliau a ddefnyddir i wella mwy ar ganlyniadau gwerth cymdeithasol trwy gaffael.

Wrth wneud y gwaith hwn, hyd yma mae 60 o swyddi newydd wedi cael eu creu ar gyfer pobl a arferai fod yn ddi-waith. Mae eu gwaith yn amrywio o brosesu data i ddi-doli

papur i weithgynhyrchu dillad ar gyfer y sector cyhoeddus. Mae'r bobl hyn yn cael eu datblygu i ennill sgiliau newydd i'w helpu i gynnal cyflogaeth gynaliadwy yn y tymor hir, mewn diwydiannau gwahanol. Mae pob swydd sy'n cael ei chreu a'i chadw yn glynu wrth yr agenda Gwaith Teg a thrwy wneud cadwyni cyflenwi yn fyrrach, maent wedi golygu gostyngiad mewn carbon.

Bu i'r profiad a gafwyd gan Swyddi Gwell yn nes at Adref ein galluogi i weithio'n agos â Diwydiant Cymru i nodi capasiti a gallu busnesau cynhenid i gyflawni gofynion brys o ran Cyfarpar Diogelu Personol. Drwy'r gwaith hwn rydym wedi gallu paru busnesau o Gymru i'r galw am Gyfarpar Diogelu Personol, ac mae nifer o gwmnïau wedi sicrhau contractau hirdymor, nid yn unig i ddarparu eitemau hanfodol i gyflawni gwasanaeth cyhoeddus ar y rheng flaen, ond eitemau i wasanaethu gofynion eraill y sector cyhoeddus y tu allan i iechyd. Byddwn yn defnyddio'r profiad hwn i lunio ein Heconomi Sylfaenol ymhellach, a'r cyfle i alluogi cyrff y sector cyhoeddus yng Nghymru i wneud y gorau o'u cyfraniad at lesiant economaidd a chymdeithasol ledled Cymru.

Ymateb: Derbyn

Goblygiadau Ariannol – Dim

Argymhelliad 3:

Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru roi rhagor o eglurder ynghylch:

Sut yn union y bydd Llywodraeth Cymru yn hyrwyddo statws caffael fel sbardun gwerth cymdeithasol trwy ei gwaith gyda'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a'r Cynllun Sgiliau a Gallu?

Dechreuodd Llywodraeth Cymru ymgysylltu â Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ym mis Mehefin y llynedd i helpu i godi ymwybyddiaeth o'r cyfleoedd i hybu llesiant a gwerth cymdeithasol ledled Cymru.

Yn dilyn hynny, dosbarthwyd adroddiad CLES ar gaffael ynghyd â dadansoddiadau caffael a rennir Llywodraeth Cymru, yn dangos cyfleoedd lefel uchel i gynyddu gwariant lleol a gwerth cymdeithasol, gan gyd-fynd ag ôl troed pob Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

Cynhaliwyd digwyddiad ym mis Chwefror a oedd yn gwahodd sefydliadau a oedd yn perthyn i'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus sy'n creu rhanbarth Tasglu'r Cyhoedd i ddod ynghyd i gwrdd â CLES ac i ystyried posibilrwydd defnyddio caffael mewn ffordd wahanol er mwyn iddo gefnogi blaenoriaethau gwerth cymdeithasol a llesiant lleol.

Bydd rhaglen gaffael CLES sy'n cael ei datblygu ar hyn o bryd yn galluogi BGCau i dderbyn cefnogaeth gan CLES a swyddogion Llywodraeth Cymru i edrych ar bosibilrwydd sicrhau rhagor o werth cymdeithasol a llesiant drwy gaffael.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cofnodi'r gwersi a ddysgwyd yn ystod y broses o gyflawni gwaith caffael CLES a dosbarthu'r hyn a ddysgwyd ar draws pob rhan o Gymru er mwyn i hynny gael ei rannu a'i ymestyn cyn gynted ag sy'n bosibl.

Pa feini prawf y bydd yn eu cymhwyso i berfformiad y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn y maes hwn, a sut y bydd llwyddiant yn cael ei fesur?

Bydd meini prawf llwyddiant yn cael eu datblygu ym mhob prosiect Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i adlewyrchu'r blaenoriaethau cymdeithasol a llesiant lleol ym mhob ardal berthnasol.

A fydd y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn cytuno ar y cyd ar egwyddorion a meini prawf gwerth cymdeithasol a/neu 'ddatganiad o fwriad' i'w fabwysiadu gan sefydliadau angori lleol, fel sy'n digwydd yn Preston?

Drwy raglen caffael CLES, bydd Byrddau Gwasanaethau Lleol a'r sefydliadau sy'n perthyn iddynt yn gallu ystyried a yw'n bosibl cytuno ar set gyffredin o feini prawf gwerth cymdeithasol.

A yw'r Grŵp Cyngori Gweinidogion yn ystyried y materion hyn ac os felly sut a phryd y bydd y Pwyllgor yn cael y wybodaeth ddiweddaraf?

Mae cynllun rhaglen wedi ei datblygu er mwyn cyflawni prosiectau caffael BGC CLES, a derbyniodd yr is-grŵp Bwrdd Cyngori Gweinidog yr Economi Sylfaenol adroddiad cynnydd ar y gwaith hwn yn ystod ei gyfarfod ym mis Awst, gyda diweddariadau pellach i'w cyflawni wrth i'r gwaith ddatblygu.

Sut y bydd Llywodraeth Cymru yn mynd i'r afael â'r broblem o sut y caiff risg ei rheoli fel rhan o'r broses caffael cyhoeddus, gan gynnwys drwy ei Chynllun Sgiliau a Gallu?

Mae dull gweithredu cymesur sy'n seiliedig ar risg bob amser wedi cael ei hybu ar gam cyn-cymhwyso drwy'r Nodyn Cyngor Caffael Dewis Cyflenwyr. Bydd rheoli risg yn well hefyd yn cael ei gynnwys yn y Rhaglen Gallu a Sgiliau sydd wrthi'n cael ei datblygu. Ymddengys fod dwy ran i'r risg – cydymffurfio'n gaeth â rheoliadau caffael mewn rhai awdurdodau sy'n arwain at amharodrwydd i roi cynnig ar rywbeth newydd ac arloesol ond hefyd o ran gofynion cymhwyso tendrau ee y sicrwydd yswiriant sydd ei angen mewn tendrau, fel y nodwyd yn yr adroddiad.

Byddwn yn annog prynwyr i fod yn arloesol a chael a chael parthau 'diogel methu', lle na fydd bai os na fydd pethau'n mynd yn ôl y bwriad ond bod gwersi'n cael eu dysgu a thechnegau'n cael eu mireinio ar gyfer y dyfodol; mae Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol o'r un farn.

Mae'r prosiectau caffael Cronfa Her yr Economi Sylfaenol yn ceisio treialu dulliau newydd o fynd i'r afael â rhai o'r problemau dyrys hyn sy'n gysylltiedig â rheoli risg. Mae Panel Caffael Arbenigol, sy'n tynnu ar arbenigedd technegol, cyfreithiol, academiaidd a busnes, wedi ei sefydlu i roi cymorth ymarferol i'r prosiectau arbrofol hyn.

Datblygu Cynllun Sgiliau a Gallu Llywodraeth Cymru: Llywodraeth Cymru i roi rhagor o wybodaeth i'r Pwyllgor am y data sylfaenol ar gyflwr y sector caffael mewn gwahanol rannau o'r sector cyhoeddus, yr anghenion cymhwyster, yr amserlenni a'r cyllid ar gyfer y cynllun, a'r hyn y mae'r Cynllun yn gobeithio'i gyflawni (ei brif ganlyniadau a'i fesurau llwyddiant)?

Mae'r achrediad a dderbynnir yn eang ar gyfer gweithwyr proffesiynol yn y maes caffael yn cael ei reoli gan y Sefydliad Siartredig Caffael a Chyflenwi (CIPS). Mae CIPS yn gorff proffesiynol byd-eang sydd yn y Deyrnas Unedig sy'n gweithio i'r proffesiynau prynu a chyflenwi. Mae 5 lefel a dderbynnir o achrediad CIPS:

Myfyriwr	Lefel mynediad ar gyfer gweithwyr proffesiynol ym maes caffael a chyflenwi yn ystod camau cynnar eu datblygiad, neu'r rheini sy'n bwriadu ymuno â'r proffesiwn.
MCIPS	Fel aelod llawn, byddwch wedi ennill dyfarniad a gydnabyddir yn rhyngwladol sy'n cynrychioli'r safon fyd-eang ar gyfer gweithiwr proffesiynol ym maes caffael.
FCIPS	Lefel uchaf aelodaeth CIPS - anrhydedd sy'n cydnabod lefel rhagorol o ran cyflawniad, gwybodaeth a phrofiad ym maes caffael.
Cydymaith	Unrhyw un nad yw'n ymgyrraedd at gymwysterau proffesiynol ond sydd â diddordeb mewn caffael a chyflenwi.
Aelod Cyswllt	Mae sawl ffordd o gael aelodaeth ar y lefel hon. Er enghraifft, mae'n bosibl i Aelodau gael Aelodaeth Gyswllt os ydynt yn ymgyrraedd at y Diploma Graddedig ac wedi cwblhau neu wedi cael esemptiadau o'r Cam Sylfaen.

Dywed CIPS fod 296 aelod yn gweithio yn sector cyhoeddus Cymru yn 2020, fodd bynnag mae hyn yn cynnwys sefydliadau Llywodraeth y DU sydd yng Nghymru fel DVLA, ONS, Tŷ'r Cwmnïau a'r Bathdy Brenhinol. O'r ffigur hwn, mae gan Lywodraeth Cymru a'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol 56 aelod o staff MCIPS sydd wedi cymhwyso'n llawn ac 14 o fyfyrwyr sy'n dilyn astudiaethau MCIPS ar hyn o bryd ar draws lefelau'r maes llafur.

Rydym yn gweithio gyda CIPS i wella'r data sydd ar gael yn y maes hwn ac ar hyn o bryd rydym yn aros am ddadansoddiad manylach ynghylch niferoedd/graddfeydd y staff caffael MCIPS cymwysedig sydd yn y gwahanol sectorau ledled Cymru hy Llywodraeth Leol, iechyd, addysg uwch/bellach, yr heddlu a'r gwasanaethau brys.

Byddwn hefyd yn gweithio gyda CIPS i ddatblygu Dangosfwrdd Gallu Cymru gyfan newydd a fydd wedi'i gysylltu â data gwariant er mwyn i ni allu bod yn fwy rhagweithiol wrth fonitro a thracio'r proffesiwn yng Nghymru a pherthynas hynny â ffigurau gwariant.

Mae gallu a chapasiti caffael yn chwarae rhan hollbwysig drwy helpu i gynyddu'r gwariant gyda chwmnïau yng Nghymru a hybu twf economaidd yng Nghymru. Mae gwahanol gymarebau a methodolegau wedi cael eu hargymell dros y blynyddoedd a

gall pob un ddarparu safbwyntiau tra gwahanol ar nifer y gweithwyr caffael proffesiynol caffael sydd eu hangen ledled Cymru. Fodd bynnag, mae pob methodoleg wedi cadarnhau bod prinder gweithwyr caffael proffesiynol.

Mae'r Cynllun Sgiliau a Gallu yn canolbwyntio ar gynyddu nifer y gweithwyr caffael proffesiynol cymwysedig yn sector cyhoeddus Cymru drwy ddatblygu lleoliadau diwydiannol, cynlluniau prentisiaeth a chodi proffil caffael mewn ysgolion. Rydym hefyd yn gweithio gyda CIPS ar ddatblygu llwybr Dyfarniad Corfforaethol MCIPS sy'n canolbwyntio ar Gymru er mwyn ennill MCIPS ac rydym yn bwriadu cynnig y cyrsiau hyn i Sector Cyhoeddus Cymru eleni.

Yn ogystal â chynyddu nifer y gweithwyr caffael proffesiynol, mae'r cynllun gallu yn rhoi manylion yr hyfforddiant a fydd yn cael ei ddarparu i gynyddu'r sgiliau yn y proffesiwn. Bydd datblygu sgiliau mewn perthynas â defnyddio cynigion ar y cyd yn rhan o'n syniadau wrth ddatblygu ein rhaglen gallu caffael. Bydd hyn yn cael ei gefnogi ac yn cael ei ategu gan y gwersi a ddysgwyd o waith caffael yr Economi Sylfaenol.

Mae'r amserlenni manwl a'r cyllid ar gyfer y cynllun wrthi'n cael eu datblygu ar hyn o bryd. Bydd llwyddiant y cynllun hwn yn cael ei fesur gan nifer ychwanegol y gweithwyr caffael proffesiynol yng Nghymru a nifer y cyrsiau a gwblheir.

Ymateb: Derbyn: Derbyn

Goblygiadau Ariannol – Dim

Argymhelliad 4:

Er mwyn i'r Pwyllgor graffu ar effeithiolrwydd y model 'cymunedau ymarfer' yn y dyfodol, dylai Llywodraeth Cymru roi mwy o eglurder ynghylch:

Y mesurau y bydd yn eu defnyddio i werthuso llwyddiant yr elfen 'lledaenu arferion gorau' yn ei chynllun ar gyfer yr economi sylfaenol

Nid oes templed penodol gallwn ni ei roi ar waith i gefnogi cymunedau Cymru. Bydd y Gronfa Her arbrofol yn treialu dulliau gweithredu gwahanol, yn datblygu Cymuned Ymarfer gref, 'Cynghrair dros Newid' a fydd yn ysgogi dadl ac yn helpu i ledaenu'n eang wersi am yr hyn sy'n gweithio.

Mae prosiectau'r Gronfa Her yn cael eu cefnogi gan Gymuned Ymarfer a roddwyd ar waith ym mis Gorffennaf, er mwyn helpu i rannu arfer da a gwersi yn sydyn ac yn eang i bob cwr o Gymru.

Rydym yn bwriadu datblygu Cynllun Galluogi ar gyfer yr 'Economi Sylfaenol' yn hytrach na'r 'Sectorau Sylfaen' fel y nodir yn ein Cynllun Gweithredu ar yr Economi. Mae hyn yn cydnabod y dull gweithredu ehangach rydym yn ei ddilyn yn awr. Datblygir y cynllun dros gyfnod a bydd y dystiolaeth a'r dysgu a ddaw o'r Gronfa Her yn elfen allweddol.

Rydym wedi symud ymlaen yn dda, ond wrth i ni roi'r dull newydd hwn ar waith, mae'n galw am gysylltiadau newydd a ffyrdd newydd o weithio o fewn ac ar draws Llywodraeth, yn ogystal â rhwng Llywodraeth, busnesau a chymunedau.

Ni all Llywodraeth Cymru gyflawni'r agenda ar ei phen ei hun. Bydd datblygu 'Cynghrair dros Newid' gref gyda rhanddeiliaid allweddol wrth ei chalon yn helpu i gyflymu'r newid at gyflawni ar y cyflymder a'r graddfa rydym am eu gweld ledled Cymru, a bydd hefyd yn helpu i fesur cynnydd ac effaith.

Y cynllun cyfathrebu ar gyfer hyrwyddo canlyniadau'r cymunedau ymarfer, gan amlinellu'r cerrig milltir allweddol;

Byddwn yn gweithio i ddatblygu ac i lunio cynllun cyfathrebu byw sy'n tynnu sylw at y sail resymegol i'r Gymuned Ymarfer ac yn nodi'r canfyddiadau a'r gwersi a ddysgwyd wrth iddynt ddod ar gael.

Fel rhan o'r cynllun cyfathrebu byddwn yn datblygu negeseuon allweddol y cytunir arnynt i siapio'r naratif. Cefnogir y rhain gan astudiaethau achos a gaiff eu cyhoeddi ar gyfryngau cymdeithasol a gwefan Llywodraeth Cymru i ddangos gwerth ymarferol y gwaith hwn.

Byddwn yn defnyddio ein holl sianeli cyfathrebu ac yn darparu diweddariadau rheolaidd i sicrhau bod gwerth y gwaith Cymuned Ymarfer yn cael ei ddeall yn eang gan y cyfryngau, rhanddeiliaid a'r cyhoedd yn gyffredinol.

Rydym hefyd yn cynnal ymarfer mapio rhanddeiliaid diwygiedig ac yn canfod hierarchaeth o unigolion allweddol ledled Cymru, er mwyn gallu cyfathrebu'n fwy effeithiol ac mewn ffordd wedi'i thargedu.

Yr hyn y bydd yn ei wneud yn wahanol er mwyn lledaenu arferion da yn llwyddiannus lle mae eraill wedi methu â chyflawni hyn dros yr 20 mlynedd diwethaf ers datganoli.

Mae cynnydd eisoes wedi cael ei wneud mewn nifer o feysydd penodol o ran polisi caffael a chyflawni. Mae'r profiad o ledaenu mabwysiadu arferion da yn eang yn llwyddiannus drwy, er enghraifft, dull y Gronfa Ddata Gwybodaeth am Gymwysterau Cyflenwyr ar gyfer dewis cyflenwyr, wedi bod yn allweddol er mwyn i ragor o gyflenwyr cynhenid ac yng Nghymru ennill cyfran fwy o wariant caffael. Bydd y gwersi sydd wedi cael eu dysgu o'r gwaith ar y Gronfa Ddata Gwybodaeth am Gymwysterau Cyflenwyr ynghylch ymgysylltu â rhanddeiliaid, datblygu polisïau, meithrin sgiliau a lledaenu yn hollbwysig i ddatblygu dulliau gweithredu newydd.

Bydd swyddogion Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r rhaglen CLES, ynghyd â phrosiectau'r Gronfa Her sydd â thema caffael, a byddant yn sicrhau bod yr arferion da yn cael eu cofnodi yn ystod y cyflawni er mwyn eu rhannu a'u lledaenu ledled Cymru.

Mae Panel Caffael Arbenigol thematig wedi ei sefydlu i helpu i werthuso y gwersi a ddysgwyd o brosiectau'r Gronfa Her ac yn cefnogi dosbarthu'r rhain yn gyflym. Bydd ein rhaglen datblygu gallu yn y dyfodol yn ceisio darparu llwybrau dysgu er mwyn

manteisio ar yr allbynnau a gyflawnir drwy'r prosiectau BGC CLES a Chronfa Her yr Economi Sylfaenol fel y gellir defnyddio'r dulliau hyn ledled Cymru.

Bydd cysylltiad ar draws cyfrifoldebau portffolio yn arwain at ragor o synergedd ar draws amrywiaeth o raglenni sy'n ategu ei gilydd, fel Tasglu'r Cymoedd, rhaglenni Swyddi Gwell yn Nes Adref a chynyddu gwerth cymdeithasol caffael. Mae'r prinder o weithwyr caffael proffesiynol yng Nghymru a'r galwadau dilynol ar y proffesiwn wedi golygu bod prif ffrydio arferion gorau yn parhau i gyflwyno heriau sy'n cael eu cydnabod yn llawn. Mae'r rhaglen caffael proffesiynol wedi ei sefydlu i helpu i fynd i'r afael â rhai o'r heriau hyn.

Gellir rhannu arferion gorau yn haws yn y dyfodol ar Khub (Knowledge Hub), lleoliad caffael o fewn y sector cyhoeddus yng Nghymru, a chymuned ar-lein. Bydd Khub yn cynnig canllawiau, hyfforddiant a pheynnau yng Nghymru yn ogystal â astudiaethau achos arfer gorau, gan alluogi staff caffael i sgwrsio ar-lein a rhannu synidau arloesol.

Ymateb: Derbyn

Goblygiadau Ariannol – Dim

Rebecca Evans AC

Y Gweinidog Cyllid a Threfnydd

Lee Waters AC/AM

Dirprwy Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth